

Glas

Bwletin misol
Llên
natur
Rhif 166
Rhagfyr 2021

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni , ar y tudalen cefn



Llun Nigel Beidas
Buarth Fro Wen
Cwm Caseg

Cyhoeddir **Glas** gan **Gymdeithas Edward Llwyd**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk



Adar y Wladfa gan Luis Carrizo: Diwcon



Diwcon *Xolmis pyrope* yn yr ardd. Luis Carrizo

Mae tudalen [Wicipedia Cymraeg y rhywogaeth hon](#) wedi ei diweddarau. Rhannwch unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd gennych ohoni. O edrych ar fap ei dosbarthiad mae'n debyg ei fod yn anghywir ac yn ymestyn I Esquel, Chubut, Patagonia, ochr ddwyreiniol yr Andes, lle mae Luis yn byw?

Ci glas



Lluniau ci glas Ffion Meleri Gwyn



Ci glas Llanystumdwy — Cafodd Ffion Meleri Gwyn y ci glas tua 5 troedfedd hwn ar draeth Ty'n y Morfa, Llanystumdwy 29 Hydref 2021. Mae hi'n nodi'r enwau eraill arno: morgi glas, *blue shark*, *tope*, *school shark* [[Galeorhinus galeus](#)]

Mwy o hanes y ci glas — [Tope](#)

Dyma'r gwleidydd Nigel Farage gyda chi glas yn ei ofal — dydi [dal](#) un o rhain ddim yn anghyfreithlon, dim ond peidio ei ddychwelyd ar ôl ei ddal. — [N. Farage / Ci glas](#)

Yr unig gofnod arall o gi glas (a siarcod eraill) sydd yng nghronfa'r Tywyddiadur yw hwn o 1893:


Lle: Llandrillo yn Rhos

Ffynhonnell: *Weekly News and Visitors` Chronicle for Colwyn Bay 25 Tachwedd 1904*

Nodiadau: *THE ROYAL FISHING-WEIR AT RHOS-ON-SEA. The occurrence of sharks upon the North Wales coast is not so unusual as is generally supposed, but the species which visit our shores are not dangerous to human beings. The blue shark, which is sometimes 7ft. or 8ft. long, has been taken in our seas one from off Llandudno, which is preserved in the Liverpool Museum, measures 5ft. 10in. The tope is often 6ft. in length and is common off the North Wales coast; the smooth hound attains the same length and has been taken in the Straits and at Colwyn and the porbeagle, which even measures over 10ft., was named by Pennant the Beaumaris shark." A thresher shark 9ft. long was taken in 1893 in Rhos weir and the lethargic but huge basking shark, which on our shores measures from 20ft. to 40ft., has been recorded from Carnarvonshire and Anglesey, but it is only a rare straggler on our Welsh shores in most year.*

Mae **llun tebygol y gored hon** (*fishing weir*) yn Llandrillo'n Rhos i'w weld ar dudalen 4 [Bwletin Llên Natur - Rhif 7](#) ynghyd a hanes coredau eraill yr ardal

Dyrchafu'r copyn arian i'r cymylau!



Roedd y pryfaid bach yma heddiw ma yn Nghors Erddreiniog, fel y gwelwch yn y llun, yn dringo i fyny ei we i'r gwifrau trydan tua tri deg troedfedd i fyny. Pa rywogaeth o bry copyn ydi rhein, rioed di gweld ffasiwn beth or blaen.



Oswyn Williams

■ Dyma farn yr

arbenigwr copynnod Richard Gallon:

"Definitely a Money Spider attempting to balloon. Can't take it to genus or species though, as there are lots which look like this."

Dyma ystyr 'swyddogol' balwnio yn y 'beibil-cops':

"*Ballooning: the aeronautical activity of spiders, achieved when long strands of silk produced by the spinnerets are caught by air currents, enabling the spider to travel through the air*"

Un ystyr o'r gair S. 'to balloon' yn yr OED yw 'achosi rhywbeth i godi'. Mae edefyn yn ddigon ysgafn i gael ei gario ar yr awel gyda'r copyn yn hongian wrtho. Mae'n debyg mai'r stori y tu ôl i'r enw *money spider* yw bod rhai ohonyn nhw, yn ôl hen gred, yn dod a lwc ariannol i'r sawl sy'n ei weld yn crwydro dros ei groen. Oni fyddai hynny yn cyfiawnhau galw'r copynnod hyn yn 'copynnod arian'?

Goleuni'r Gogledd

Neges gan Steve Roddick o ardal Malltraeth, Sir Fôn 3 Tachwedd 2021:



"I think I just caught the Northern Lights" (22.09)





Ac ym yr ail lun: "More or less gone now!" (22.45)

"Mwy o wybodaeth gan Steve: My first photo was taken at 22:09; by 22:45 it had disappeared, just as a rainbow can suddenly disappear.

"Tonight [4 Tachwedd] looks cloudy but the forecast suggests after 21:00 it might be possible." Rhywun arall wedi ei weld y noson honno neu drannoeth?

Pa mor aml gallwch chi weld Goleuni'r Gogledd o dir Gymru? Dyma chwilio'r Tywyddiadur am <Goleuni'r-Gogledd>, <Goleuni-Gogledd>, <Aurora>, <Awrora> a <Northern-Lights> a chael 59 o gofnodion o Gymru yn rhychwantu cyfnod o bron i 300 mlynedd (o 1735 hyd y presennol). Mae'r cofnodion yn dilyn patrwm tymhorol eitha clir, sef anterth ym mis Chwefror a mis Hydref gyda llawer llai ym misoedd yr haf (a dim ym mis Mehefin) (grafr chwith).



4	10	1735	Llanfechell
14	10	1736	Llanfechell
15	10	1736	Llanfechell
8	10	1750	Llanfechell
24	10	1848	Caerdydd??
15	10	1851	St Edrens. Penfro
24	10	1870	Aberystwyth
24	10	1870	Caerdydd
24	10	1870	Tywyn
24	10	1870	Malta
28	10	1961	Padog

Nid yw'r cofnodion yn digwydd ar hap dros y cyfnod, ond nid yw'r patrwm yn dangos yn glir cyfnodau o Oleuni neu

ddiffyg Goleuni (grafr canol). Byddai'n ddadlennol iawn edrych ar y cofnodion hyn mewn perthynas, er enghraifft, â phatryma 'smotiau haul' tymor hir.

Tra bod cofnodion yr 18ed ganrif i gyd yn dod o ddyddiadur William Bulkeley yn Llanfechell, Môn, ac felly yn gorbwysleisio efallai pwysigrwydd y cyfnod hwnnw) mae cofnodion mis Chwefror yn fwy amrywiol eu tarddle: Llanfechell (1750), Bae Langland, Bro Gŵyr (1870), Cwm Eidda, Padog (1930), Môn a Thrawsfynydd (2010). Ond y dystolaeth cryfaf oll oedd y sylwadau o Chwefror 1900 pan gafwyd cofnodion gwasgaredig o Abertawe, Llangernyw, dau o Abergwaun a dau o Landudno.

Mae cofnodion 'anterth' mis Hydref hefyd yn amrywiol eu tarddle (gweler y rhestr). Cafwyd 4 o gofnodion o'r un diwrnod ar y 24 Hydref 1870, gydag un wedi ei gynnwys o Malta (coch) i ddangos mai ffenomenon dros dde Ewrop oedd Goleuni'r noson honno.

Buasen ni'n gwerthfawrogi sylwadau arbenigol ar y canlyniadau hyn.

Hen glochau adaryddol (parhad)



Chwi gofiwch efallai hanes (Glas 165) hen gloc gyda llun y chwaddwr mawr arno? Wel dyma gloc adaryddol egsotig arall a ddaeth i'r fei.

"Mae gen i hen gloc, tua'r un oed [1820] â wyneb tebyg ond gyda ji-binc" meddai Ann Phillips

Doedd Llên Natur ddim yn mynd i ddadlau ond cawsom gynnig arall gan Dewi Lewis: "Amau os ji-binc sydd ar wyneb y gloc hwn. Edrych yn debycach i glas y dwyrain neu las y gorllewin *Sialia mexicana* neu Eastern Bluebird *Sialia sialis* gyda rhyw elfen o ben rhyddid yr artist." Ceir mwy o hanes glas y gorllewin yma yn y [Wicipedia](#)



[Cymraeg Glas y Gorllewin](#) - Wicipedia (wikipedia.org)

Dydyn ni ddim callach eto am darddiad y 'ffashiwn' yma - oes yna arbenigwyr hen greiriau allai ein helpu?

Erydiad ar draeth Cricieth

Erydiad - Dwi wedi bod yn disgwyl i'r garreg hon ddisgyn o'r clogwyn ers blynnyddoedd - Cricieth. 7 Tachwedd 2021.

Iwan Gwyn Williams



MAI
2016



RHAG.
2018



ION
2020



TACH
2021

- Gwych! Adnodd i'r gwersi Daearyddiaeth fory os caf ei ddefnyddio!
Catrin Bellamy Jones
- A dyma'r un garreg ar ôl storm 9-10 Mawrth 2021
Meic Watts (llun gan Robin Aherne)
- Cofnod am y storm hwnnw yn Waunfawr: Gwynt o'r SSW, <50.7km/awr (gorsaf dywydd Maes Gwynedd, Waunfawr)
Gethin Pritchard



... Dros dymor hir

Erydiad tymor hir traeth Cricieth

Erydiad - Dwi wedi bod yn ceisio dyfalu be di tarddiad y garreg frown-goch hon, ar waelod clogwyn a arferai fod ar ganol Cae Bach Glan y Mor ar fap caeau 1907. Erbyn hyn mae'r garreg ar y traeth, gan bod y cae wedi cael ei erydu bron yn llwyr (dwi wedi rhoi tros haen y map degwm ar lun o'r awyr) [Cricieth - llun carreg uchaf Tachwedd 2021, llun carreg isaf Rhagfyr 2018].

Iwan Williams

Wrth roi tros haen map Arolwg Ordnans 1888 ar ddelwedd o'r tir heddiw mae Iwan wedi llwyddo i amcanu maint yr erydiad a fu rhwng 1888 a'r presennol (cyfartaledd o 21 medr neu 70 troedfedd mewn 133 o flynyddoedd)



Cae Bach Glan y Mor ar fap caeau 1907.



Erbyn hyn mae'r garreg ar y traeth.



Wrth osod tros-haen map Arolwg Ordnans 1888 ar ddelwedd o'r tir heddiw.




Gwlad y tylwyth teg: Sanclêr, Sir Gâr

Lluniau Llinos Mair Evans



Gwlad y tylwyth teg ■ caws llyffant
■ 21 Hydref



Cap Ilaeth saffrwm (*Lactarius deliciosus*) neu cap Ilaeth saffrwm ffug (*L. Deterrimus*)
■ 27 Hydref



Dyma farn y meicolegydd
Charles Aaron: "These look like they could be *Clitocybe clavipes* or some other *Clitocybe*." sef un o'r twmffatau



Cwpan pren gwyrdd ■
Chlorociboria aeruginascens ■
27 Medi



Amanita'r gwybed ...
a'r gwllithod! ■ 27 Hydref
2021 ■ Yn ôl hwn, dy'n nhw
ddim yn wenwynig i
anifeiliaid...



Pastwn crych ■ *Clavulina rugosa* ■
22 Hydref



Torthau melyn ■ *Hypholoma fasciculare* ■ 22 Hydref



Pengrych ■ *Sparassis crispa* ■ 27 Medi
■ "Roedd e'n dipyn o faint!"



Mwy o Wybodaeth

- Amanita'r Gwybed
- Pastynau
- tynffedau / twndisiau

«Llysieuwyr» y Waunfawr: Pigion Mois



Cofio fel byddai fy mam yn ffrio llond padell o ddanadl poethion erystalwm a ninnau'r plant yn mwynhau platiad o frecwest blasus o facwn, wŷ a dail poethion



Roedd fy nhaid John Jones, Gwastadfaes, Waunfawr ers talwm, yn cael ei gyfri fel un o'r llysieuwyr gorau yn yr ardal. Un da am wneud ffigis allan o wahanol ddail ac ati. Roedd ganddo hen debot pridd a byddai'n hel y dail ar wahanol amseroedd a'u berwi, a byddai'r dŵr ohonynt yn gwella rhywun yn cwyno efo gwynt neu boen yn y bol. Roedd lliw fel hen de cryf ar y ffigis a byddai blas ofnadwy o ddrwg arno, Taid yn gwaeddi, "Lawr a fo! lawr a fo!" a nain tu ôl iddo yn barod efo llwyaid o siwgr neu ddâ-dâ mint i dynnu'r blas i ffwrdd. Byddai hefyd yn awgrymu i rai fyddai'n teimlo'n isel ei hysbryd, gnoi beth oedd ef yn alw yn ddeilen 'seren y coed,' a byddant yn siwr o ddod at ei hunain. [Mi gofnododd Ann Elizabeth Williams (**Meddyginiaethau Gwerin Cymru**, Gwasg y Lolfa, 2017) i ddanadl poethion gael eu defnyddio i drin anhwylderau llwybr y treuliad ddwywaith yng Ngwynedd].



Galwodd un o'r tyddynwyr cyfagos heibio fy nhaid un diwrnod yn dweud fod un o'r lloeau yn diodde'n arw o'r ysgothi, a wedi mynd yn wan nes methu codi. "Sgynoch chi gyngor ga'i John Jôs"? meddai'r cymydog. "Yi!", meddai 'nhaid, "Dos i'r cae 'na, a weli di'r **dail tafol** 'na tynna lond dwrn o'r hâd nes byddi wedi cael llond sosban a berwa nhw a rho nhw iddo fo!" Y cymydog wedyn yn canmol fel roedd y llo wedi mendio yn syth



Dro arall roedd un o gesig fferm cyfagos wedi cloffi dros nos a galwyd am y ffariar â'r meddyg esgryn i ddod yno ar frys, Y ddau yn dweud na fedrant wneud dim i'r gaseg gan fod un o'r cyhyrau yn rhy isel i lawr i gael gafael ynddo a doeth fyddai ei rhoi i lawr. John Jôs yn dweud y buasai'n rhoi cynnig ar ei gwella. Yntau'n dod a llond sosban o' **gwlydd y dom**, wedi ei ferwi i'r stabl a mynd ati i olchi a rhwbio'r goes lawer gwaith y dydd. Ymhen ychydig roedd y gaseg wedi dod at ei hun, pryd nad oedd gobaith iddi cyn hynny.



Ffigis arall a ddefnyddwyd gan yr hen bobl erystalwm oedd y 'golch sur' (pi-pi), wedi ei gadw yn arbennig ar gyfer yr anifeiliaid oedd yn cau a bwyta. Byddai cynnwys y potiau'r golch dan y gwely yn cael ei dywallt i biseri a photeli a'i gadw nes byddai wedi suro a'i roi yn gymysg ynghanol ffigid y gwartheg â'r ceffylau. Dywedir hefyd fod yfed peth o'r golch yn beth da at wella a chael gwared o 'bennau dynod' oddi ar y gwddf a'r wegil.



Byddai rhai o'r dynion yn y chwareli hefyd yn defnyddio'r golch i'w rhwbio ar eu dwylo er mwyn arbed y croen rhag cracio â chasglu wrth drin y llechi. "Mi fydda dwylo ambell un fel melfad!" chwedl 'nhad. Clywais hefyd fel roedd merch a gwallt hardd ganddi yn dweud fel byddai'n 'dipio'r crib' mewn pot golch, er mwyn cael trefn a sglein ar ei gwallt.

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Hefyd, byddai'r hen bobl adeg y Gwanwyn yn tipio pethau fel plancedi yn y golch fel bod yr amonia ynddo yn gwynnu'r defnydd, cyn eu golchi'n lân yn y pistyll neu'r twb golchi.




Soniodd Mary Davies ['Mary Plas'] yn ei dyddiadur ar 13 Mai 1914 am '*Hel danedd poethion wrth y Garth wrth ddwad adre, a heibio Tynffridd*', ardal Cynllwyd, Y Bala. Cynni rhyfel o bosib?

Gwilym Morris Jones

***Ewch i fan hyn i weld dosbarthiad rhai triniaethau llysieuol o gyfrol Ann Elizabeth Williams gan gynnwys danadl poethion**

Mapiau
Llên natur




Y waell gyffredin

Y waell gyffredin - y gwas neidr olaf i hedfan pob blwyddyn?

Sympetrum striolatum, gwäell gyffredin. Gwas y neidr bychan, aflonydd, bydd yn glanio yn aml ar dyfiant ar ochr pyllau ac hefyd ar y llawr ar adegau llai cynnes.

Gwas y neidr cyffredin iawn, ar adain o ddiwedd Mehefin i ddiwedd Hydref, hawdd ei gymysgu gyda'r gwäell rudd.


Llun a sylw: Alun Williams



Dywedir mai hwn yw'r gwas neidr olaf i hedfan cyn y gaeaf. Hollol gredadwy - dyma fisoedd y gwelwyd 28 ohonyn nhw yng nghronfeydd Llên Natur (rhai Cymuned Llên Natur 2018-21, rhai o'r Oriol a'r Tywyddiadur 1978-2010).

TYMOR Y WAELL GYFFREDIN *Sympetrum striolatum*

yn ôl gofnodion Llên Natur 1978-2021



Cysylltwch gyda ni:
llennatur@yahoo.co.uk

Siglen neu tonnen

'Cors grynu', wedi ei greu gan haen drwchus o fwsogl yn tyfu dros ddŵr. Profiad diddorol cerdded arno.

Sylw a Fideo: [Scott Saunders](#)



Tregarth, ddoe 13 Tachwedd 2021 Llun: [Scott Saunders](#).

Heb glywed yr enw cors grynu o'r blaen- addas iawn. Gofyn bod yn ofalus iawn mewn llefydd fel hyn.

Margaret Roberts

Bol buwch dani yn dweud !!

Gwyn Williams

Siglan. Neu tonan dwi di glwad gan Dad Aled E. Jones

DONEN LAS yw'r tir corsiog yng ngodre Moel Eilian (Waun Bant ar lafar lleol) gan y rhai a blannodd y coed duon bodigrybwyll yno, er na chlywais am neb yn lleol yn defnyddio'r enw hwnnw. DB

Tonan yn gyfarwydd. Trefor

Brenda Jones

Running away from a fierce goose up on the mountain in Glamorgan, seventy years ago I lost one wellie sucked off my foot by a patch of quaking bog like the one pictured here and limped home in floods of tears. More wetness!

Mary Rose Bilson

Cael ein rhybuddio pan yn blentyn gan Dad i beidio mynd i ryw rôs wrth ymyl adra gan fod na Donnan yno ai bod yn beryg mynd. Netta Pritchard

Wnes i ddiplannu reit fyny at fy nghanol drwy gerddad ar un o rhain unwaith

Lowri Jones

Cydweithiwr mwy mentrus na fi wedi gwneud yr un peth yng Nghors Gyfelog (Pant Glas) - peryg dros ben DB Fe gollwyd ceffyl gwedd yng nghors Gyfelog un tro (1930?)

Twm Elias

Mae'n debyg bod y gair mign (migin ar lafar yn Arfon) yn eitha agos i hwn o ran gwlypter. DB

"Mignan" ar lafar ym Meirionydd ers talwm. Yr un 'mign' ac sydd yn 'Y Migneint', 'Tal Mignedd' ac ati. Gwenan Williams

Tonnan, am ei bod yn tonni dan eich traed (Arfon). Mewn cors fawnog mae'n hawdd ei nabod oherwydd y migwyn (mwsog o liw golau - melynwyrd) drosti. Gall fod yn beryglus iawn os torrwyd drwy'r croen. Yn y llun: pridd wedi meddalu oherwydd llawer o law trwm

Twm Elias

Mae'r gair tonen yn ddiddorol. Nid ton fel yn ton y môr yw'r tarddiad ond yn hytrach ton = croen, sef y croen sy'n eich dal (gobeithio!) rhag suddo yn y math yma o le ([gweler tonnen² b. yn GPC](#))

Eira pinc

Gwaed ar yr eira? Dwy flynedd yn ôl ym [Mwletin 141 tudalen 3](#) (lennatur.cymru) cawsom drafodaeth am yr hyn sy'n achosi eira coch yn y mynyddoedd uchel.

Daethom i'r casgliad mai'r alga [Chlamydomonas nivalis](#) (Wikipedia) sydd yn gyfrifol. Dyma esboniad llawnach, a llun, gan Alun Williams:

Rhewlif Aletsch, Swistir.



Sylwch ar yr eira pinc ar y dde. Dyma esboniad : *Watermelon snow, also called snow algae, pink snow, red snow, or blood snow, is a phenomenon caused by Chlamydomonas nivalis, a species of green algae containing a secondary red carotenoid pigment (astaxanthin) in addition to chlorophyll. Unlike most species of fresh-water algae, it is cryophilic (cold-loving) and thrives in freezing water*

Ond faint ohonom a wŷr ba mor hanesyddol oedd y wybodaeth honno? Roedd Charles Darwin yn ei gyfrol The Voyage of the Beagle am daith i Dde America ar long Y Beagle a gychwynnodd o Brydain yn Rhagfyr 1831 yn hen gyfarwydd. Dyma ysgrifennodd Darwin ar ôl archwilio'r Cordillera yn yr Andes ar y daith honno:

On several patches of the snow I found the *Protococcus nivalis* [enw cynharach] or red snow, so well known from the accounts of Arctic navigators. My attention was called to it, by observing the footsteps of the mules stained a pale red, as if their hoofs had been slightly bloody. I at first thought that it was owing to dust blown from the surrounding mountains of red porphyry; for from the magnifying power of the crystals of snow, the groups of these microscopical plants appeared like coarse particles. The snow was coloured only where it had thawed very rapidly, or had been accidentally crushed. A little rubbed on paper gave it a faint rose tinge mingled with a little brick-red. I afterwards scraped some off the paper, and found that it consisted of groups of little spheres in colourless cases, each of the thousandth part of an inch in diameter.

Dywedir bod eira coch yn cynyddu yn sgîl [Newid Hinsawdd a'i fod hefyd yn lleihau'r effaith albedo](#) (Wikipedia) sy'n peri i'r rhewlif amsugno mwy o wres nag y buasai fel arall gan gyfrannu at ddadmar pellach yn y rhow.

Cawn mwy am daith Darwin i Dde America yn fuan.



1983

1. Dyma lun a dynnais yn 1983 o ben y Gogarth Fach i gyfeiriad Craig y don. Hen safle cwrtiau tenis dan do Gwesty Craigside Hydro oedd wedi eu dymchwel a welwch, gyda'r bwriad o adeiladu tai. Mae hen *'Summer houses'* y gwesty ynghanol y llun ar ochr y dibyn. Fe welwch olion erydu ar y clogwyni.



Mai 2007

4. Llun a dynnais o'r safle o gwch ym Mai 2007 yw hwn. Fe welwch yn glir bod rhan o'r clogwyn wedi syrthio eto.



Tachwedd 2007

5. Aed ati yn Nhachwedd 2007 i geisio diogelu'r safle, ac fe gariwyd unwaith eto dunelli o gerrig mawr yno.



1985

2. Erbyn 1985 roedd y gwaith wedi dechrau i ddiogelu'r clogwyn, gyda thunelli o gerrig a phridd. Cyn hynny, roedd y *'summer houses'* wedi diflannu i'r môr.



1987

3. Do, fe wnaeth wella erbyn 1987 gyda'r glaswellt wedi tyfu a llwybr i fynd lawr at y traeth.



2014

6. Erbyn 2014, dyma'r sefyllfa unwaith eto.

Beth fydd y dyfodol?

Mae rhyferthwy'r gwynt a'r tonnau yn ennill bob tro! Dyna pam ei bod mor bwysig i ni gymryd problem newid hinsawdd o ddifri.

Mae Gareth Pritchard sy'n byw yn Llandudno wedi monitro sefyllfa tirlun glan môr Llandudno.

■ Mae COP26 wedi gwneud i ni feddwl. Mae gwaith Gareth Pritchard (ac eraill yn y rhifyn hwn) yn gwneud i ni feddwl am erydiad arfordirol.